# Cyngor Partneriaeth Cymru

## 01 Mawrth 2021

**Yn Bresennol**

| | |
|---|---|
| Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol | Julie James AS |
| Y Dirprwy Weinidog Tai a Llywodraeth Leol | Hannah Blythyn AS |
| Y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Pontio Ewropeaidd | Jeremy Miles AS |
| Aelodau'r Cyngor Partneriaeth | |
| Arweinydd Cyngor RhCT ac Arweinydd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru | Y Cyng. Andrew Morgan |
| Arweinydd Cyngor Ceredigion | Y Cyng. Ellen ap Gwynn |
| Arweinydd Cyngor Caerdydd | Y Cyng. Huw Thomas |
| Arweinydd Cyngor Pen-y-bont ar Ogwr | Y Cyng. Huw David |
| Arweinydd Cyngor Conwy | Y Cyng. Sam Rowlands |
| Arweinydd Cyngor Caerffili | Y Cyng. Philippa Marsden |
| Arweinydd Cyngor Castell-nedd Port Talbot | Y Cyng. Rob Jones |
| Arweinydd Cyngor Powys | Y Cyng. Rosemarie Harris |
| Arweinydd Cyngor Blaenau Gwent | Y Cyng. Nigel Daniels |
| Arweinydd Cyngor Sir Benfro | Y Cyng. David Simpson |
| Arweinydd Cyngor Sir Ddinbych | Y Cyng. Hugh Evans |
| Arweinydd Cyngor Sir y Fflint | Y Cyng. Ian Roberts |
| Arweinydd Cyngor Ynys Môn | Y Cyng. Llinos Medi Huws |
| Arweinydd Cyngor Bro Morgannwg | Y Cyng. Neil Moore |
| Arweinydd Cyngor Pen-y-bont ar Ogwr | Y Cyng. Huw David |
| Arweinydd Cyngor Casnewydd | Y Cyng. Jane Mudd |
| Arweinydd Cyngor Ceredigion | Y Cyng. Ellen ap Gwynn |
| Arweinydd Cyngor Torfaen | Y Cyng. Antony Hunt |
| Arweinydd Cyngor Sir Fynwy | Y Cyng. Peter Fox |
| Arweinydd Cyngor Merthyr Tudful | Y Cyng. Lisa Mytton |
| Arweinydd Cyngor Dinas a Sir Abertawe | Y Cyng. Rob Stewart |
| Arweinydd Cyngor Gwynedd | Y Cyng. Dyfrig Lewis Siencyn |
| Cadeirydd Un Llais Cymru | Y Cyng. Michael Theodoulou |
| Cynrychiolydd GIG Cymru a'r Byrddau Iechyd Lleol | Maria Battle |
| **Sylwedyddion** | |
| Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru | Peter Davies, Cadeirydd |
| Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru | Chris Llewellyn, Phrif Weithredwr |
| Un Llais Cymru | Lyn Cadwallader, Prif Weithredwr |
| Swyddfa Archwilio Cymru | Huw Rees |
| **Ymddiheuriadau** | |
| Cynrychiolydd y Comisiynydd Heddlu a Throseddu | Mr Alun Michael |
| Dirprwy Arweinydd Cyngor Sir Caerfyrddin | Y Cyng. Mair Stephens |

| | |
|---|---|
| TUC | Shavanah Taj |

**Croeso a Chyflwyniadau**

1. Croesawodd y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol (y Gweinidog) yr holl aelodau a diolch iddynt am fod yn bresennol.

**Eitem 1 ar yr Agenda: Trefniadau Pontio Ewropeaidd**

2. Gwahoddodd y Gweinidog y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Pontio Ewropeaidd (y Cwnsler Cyffredinol), Jeremy Miles AS, i roi'r wybodaeth ddiweddaraf.

3. Diolchodd y Cwnsler Cyffredinol i bawb am y gwaith yr oeddent wedi'i wneud wrth baratoi ar gyfer diwedd cyfnod pontio'r UE. Dywedodd fod Llywodraeth Cymru yn cydnabod yr heriau y mae llywodraeth leol yn eu hwynebu yn sgil Covid a sut y mae diwedd y cyfnod pontio a ffactorau tymhorol eraill wedi peri rhwystredigaeth iddynt.

4. Nododd y Cwnsler Cyffredinol fod y Cytundeb Masnach a Chydweithredu wedi'i gyhoeddi ers y tro diwethaf iddo gyfarfod ag aelodau'r Cyngor Partneriaeth.

5. Dywedodd y Cwnsler Cyffredinol fod £7m pellach o arian ychwanegol wedi dod ar gael ar gyfer cymorth pontio fel rhan o'r gyllideb derfynol, gan gynnwys ar gyfer cydgysylltwyr pontio i barhau i helpu'r awdurdodau lleol i ymateb i bwysau pontio.

6. Cadarnhaodd y Cwnsler Cyffredinol y bydd £2m yn ychwanegol ar gael hefyd i gefnogi teuluoedd mewn tlodi, gan gydnabod yr effaith y bydd y berthynas fasnachu newydd yn ei chael ar brisiau bwyd. Nid oedd y gefnogaeth hon wedi'i chyhoeddi eto ond roedd am ddweud wrth yr aelodau heddiw.

7. Dywedodd y Cwnsler Cyffredinol fod yr effaith ar lywodraeth leol yn parhau i fod yn sylweddol ac yn ansicr. Cadarnhaodd nad effeithir ar y trefniadau tariff am y tro, ond bydd newidiadau i fasnachu a threfniadau eraill yn gwrthbwyso manteision hynny. Bydd swyddogaethau newydd a newidiadau i reolau yn cael effaith uniongyrchol ar yr awdurdodau lleol, megis mewn perthynas â chymorth gwladwriaethol a chaffael. Y peth pwysicaf yw'r berthynas â'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu a'r berthynas wrth symud ymlaen. Mae dogfen wedi'i chyhoeddi yn dadansoddi'r cytundebau cysylltiedig mewn ymgais i ddarparu canllaw ymarferol i Gymru, gan drafod y goblygiadau i fusnesau a chymunedau. Bydd dogfen fanylach ar gael i fusnesau gyda mwy o fanylion, wrth iddynt geisio mynd i'r afael â'r rheoliadau newydd.

8. Dywedodd y Cwnsler Cyffredinol fod porthladdoedd ar y ffin wedi bod yn flaenoriaeth, yn enwedig rheoli maint y traffig a'r aflonyddwch. Cadarnhaodd hefyd nad yw'r aflonyddwch wedi bod mor ddifrifol ag y credid yn wreiddiol, ond dywedodd adroddiad gan Lywodraeth Iwerddon fod cyfaint y fasnach wedi

gostwng 50% o'i gymharu â'r un cyfnod yn 2020. Ei farn ef oedd mai aflonyddwch a chostau ychwanegol rheoli ffiniau oedd y realiti newydd wrth fasnachu gyda'r UE, ac mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Chaergybi a phorthladdoedd yn y De Orllewin i reoli hyn.

9. Dywedodd y Cwnsler Cyffredinol fod rhagolygon y dyfodol ar gyfer cyllid Datblygu Rhanbarthol yn y dyfodol yn destun pryder difrifol. Neilltuodd Llywodraeth y DU £220 miliwn i'r DU gyfan i dreialu'r Gronfa Ffyniant Gyffredin - toriad o'r £370 miliwn a gafodd Cymru o'r blaen. Dywedodd y Cwnsler Cyffredinol fod fframwaith yn cael ei ddatblygu ac y bydd Llywodraeth newydd Cymru yn cael cyfle i ailosod y berthynas â Llywodraeth y DU, gofyn am newid dull gweithredu a rhoi datblygu rhanbarthol ar frig yr agenda.

10. Dywedodd y Cwnsler Cyffredinol fod Deddf y Farchnad Fewnol, yn enwedig y pŵer ariannol (sy'n gyfrifol am ddarparu'r Gronfa Ffyniant Gyffredin), yn annerbyniol i Gymru a bod achosion cyfreithiol wedi dechrau yn erbyn y Ddeddf. Dywedodd y byddai materion amgylcheddol ac iechyd y cyhoedd yn cael eu peryglu os na fydd Llywodraeth Cymru yn llwyddo i herio'r materion hyn.

11. Diolchodd y Gweinidog i'r Cwnsler Cyffredinol am ei ddiweddariad.

12. Croesawodd y Cyng. Andrew Morgan barhad y cyllid ar gyfer Cydgysylltwyr Pontio'r UE a'r swm ychwanegol o £2m i helpu i fynd i'r afael â thlodi bwyd.

13. Croesawodd y Cyng. Rob Stewart y trefniadau sydd wedi'u rhoi ar waith a'r cyhoeddiad ynghylch y Gronfa Ffyniant Gyffredin (a'r Gronfa Lefelu), ac fe gynigiodd ei gefnogaeth wrth symud ymlaen.

**Eitem 2 ar yr Agenda: Datgarboneiddio**

14. Croesawodd y Gweinidog Iwan Davies, Prif Weithredwr Conwy, i gael yr wybodaeth ddiweddaraf am ddatgarboneiddio.

15. Dywedodd Iwan fod y panel datgarboneiddio wedi bod yn cyfarfod yn rheolaidd ers mis Tachwedd 2020, a bod y panel wedi cydnabod y gwaith da sydd eisoes wedi'i wneud ar lefel leol, a'i fod am ei annog a chyfrannu ato os oes modd.

16. Dywedodd Iwan fod y Panel Strategaeth wedi cytuno i ddefnyddio trywydd datgarboneiddio'r Sector Cyhoeddus (a fydd yn cael ei rannu ar ôl y cyfarfod) a ddatblygwyd gan y tîm datgarboneiddio o fewn ESNR Mae'r trywydd hwn yn cael ei ddefnyddio fel fframwaith strategol gan iechyd a llywodraeth leol ac mae'n seiliedig ar y pedair thema a nodir yn *Ffyniant i Bawb: Cymru Carbon Isel* fel meysydd blaenoriaeth ar gyfer datgarboneiddio - Trafnidiaeth, Adeiladau, Defnydd Tir a Chaffael.

17. Y nod yw cefnogi awdurdodau lleol i wneud materion sy'n ymwneud â charbon yn rhan annatod o wneud penderfyniadau perthnasol. Dywedodd Iwan fod gan o 16 awdurdodau lleol wedi datgan yn ffurfiol bod newid yn yr hinsawdd yn

argyfwng lleol, bod gan 12 gynllun gweithredu ar waith, bod gan 6 gynlluniau ar y gweill a bod 4 wrthi'n adolygu cynlluniau blaenorol.

18. Nododd Iwan fod y £200k ychwanegol i CLlLC i helpu i gyflawni newidiadau ar ddatgarboneiddio i'w groesawu'n fawr.

19. Cadarnhaodd Iwan y bydd cynhadledd y Cenhedloedd Unedig ar y newid yn yr hinsawdd yn cael ei chynnal yn ddiweddarach eleni ac mai bwriad y panel yw dangos i'r byd yr hyn y mae Cymru'n ei wneud o ran gwaith cenedlaethau'r dyfodol ac arweinyddiaeth ynghylch datgarboneiddio.

20. Diolchodd y Gweinidog i Iwan am ei ddiweddariad, a'r holl waith a wnaed gan y panel ac ar draws sefydliadau hyd yn hyn.

**Eitem 3 ar yr Agenda: Claddu ac amlosgi plant**

21. Dywedodd y Gweinidog mai Cymru oedd y wlad gyntaf yn y DU yn 2017 i hepgor ffioedd claddu ac amlosgi plant. Cyflawnwyd gan waith partneriaeth rhwng Llywodraeth Cymru a llywodraeth leol, cynghorau cymuned a thref a sefydliadau'r sector preifat.

22. Dywedodd y Gweinidog fod yr adolygiad o'r trefniadau yn dangos bod y trefniadau presennol yn gweithio'n dda, ac felly roedd wedi cytuno i barhau â'r cyllid cysylltiedig am 3 blynedd bellach o 1 Ebrill 2021.

23. Cyhoeddodd y Gweinidog hefyd, yn ogystal â hepgor y ffioedd claddu ac amlosgi plant, fod cyfraniad tuag at drefniadau angladd a chostau cysylltiedig eraill wedi'i gymeradwyo.

24. Cadarnhaodd y Gweinidog ei bod wedi ysgrifennu at Un Llais Cymru a CLlLC yn gofyn iddynt ailddatgan eu hymrwymiad i'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth drwy ei lofnodi.

25. Diolchodd y Cyng. Andrew Morgan i'r Gweinidog am ei diweddariad ac ar ran CLlLC croesawodd barhad y cyllid a'r cymorth ychwanegol gyda chostau angladdau.

26. Cadarnhaodd y Cyng. Mike Theodoulou fod Un Llais Cymru yn gwbl gefnogol i'r cyllid ychwanegol ac y bydd yn parhau i gefnogi'r gwaith drwy lofnodi'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth.

**Eitem 4 ar yr Agenda: Yr wybodaeth ddiweddaraf am Etholiadau'r Senedd**

27. Dywedodd y Gweinidog fod Bil Etholiadau Cymru (Coronafeirws) (sy'n aros am y Cydsyniad Brenhinol) wedi'i gyflwyno ym mis Ionawr, a'i fod yn gwneud cynlluniau wrth gefn ar gyfer y sefyllfa os bydd y pandemig yn gwaethygu ac os na ellir cynnal yr etholiadau arfaethedig ar 6 Mai bryd hynny. Dim ond tan yr etholiad y mae'r Bil yn ddilys ac nid oes ganddo unrhyw swyddogaeth bellach wedi hynny. Ni fydd y Bil yn newid dyddiad yr etholiad ond mae'n

cynnwys mecanwaith ar gyfer ei ohirio, er ein bod yn gobeithio na fyddai hyn yn angenrheidiol.

28. Dywedodd y Gweinidog fod newidiadau i'r rheolau ynghylch hyblygrwydd o ran enwebu a dirprwyon brys wedi'u trafod yn ogystal ag addasiadau i ddisgrifyddion tiriogaethol a phleidleisio drwy'r post. Cadarnhaodd y Gweinidog y bydd manylion yn cael eu rhoi ar y rheini cyn gynted â phosibl.

29. Dywedodd y Gweinidog fod deialog reolaidd wedi'i chynnal gyda Swyddogion Canlyniadau'r awdurdodau lleol i drafod yr holl faterion cysylltiedig, yn enwedig mewn perthynas â diogelwch lleoliadau

30. Cadarnhaodd y Gweinidog fod etholiadau'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu'n cael eu cynnal ar yr un diwrnod, ynghyd â nifer o isetholiadau Cynghorau Tref a Chymuned. Cadarnhaodd y Gweinidog y bydd y Bil yn rhoi'r pŵer i ohirio isetholiadau Cynghorau Tref a Chymuned drwy reoliadau.

31. Dywedodd y Gweinidog y bydd busnes y Senedd yn dod i ben ar 26 Mawrth cyn toriad y Pasg ond na fydd y Senedd yn cael ei diddymu'n ffurfiol tan 29 Ebrill rhag ofn y bydd busnes brys gan y llywodraeth o ganlyniad i Covid. Er hynny, ni fyddai hyn yn atal aelodau'r Senedd rhag sefyll fel ymgeiswyr ar gyfer yr etholiad.

32. Nododd y Gweinidog y cytunwyd ar newidiadau brys sy'n galluogi pobl sy'n hunanynysu i enwebu cynrychiolydd procsi hyd at 5pm ar Ddiwrnod yr Etholiad. Cadarnhaodd y Gweinidog na fydd cyfrif y bleidlais yn digwydd dros nos, ond y bydd yn dechrau ddydd Gwener gan ganiatáu i'r holl swyddogion gael noson o gwsg i gynyddu nifer y staff sydd ar gael i'r eithaf.

33. Dywedodd y Cyng. Andrew Morgan fod nifer o ysgolion fel arfer yn cael eu defnyddio fel gorsafoedd pleidleisio a bod aflonyddwch yn cael ei leihau fel rheol drwy gau rhannau o'r ysgolion yn unig. Er hynny, mae rhai ysgolion yn bwriadu cau yn eu cyfanrwydd heb ystyried asesiadau iechyd y cyhoedd. Gofynnodd y Cyng. Morgan am arweiniad gam y Llywodraeth a chadarnhaodd y Gweinidog ei bod wedi bod yn gweithio gyda Swyddogion Canlyniadau ar y mater hwn. Gofynnodd y Gweinidog i'r holl Swyddogion Canlyniadau dynnu sylw at y materion ar gyfer eu hardaloedd eu hunain.

**Eitem 5 ar yr Agenda: Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru)**

34. Diolchodd y Gweinidog i bawb a oedd wedi cyfrannu at y gwaith tuag at Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru). Nododd y Gweinidog fod y gwaith ar y Ddeddf yn enghraifft wych o ba mor dda y gall cydgynhyrchu weithio yng Nghymru ac ailadroddodd ei diolch i swyddogion awdurdodau lleol a CLlLC a oedd wedi gweithio gyda swyddogion Llywodraeth Cymru ar fanylion y Ddeddf.

35. Dywedodd y Gweinidog ei bod yn bwriadu gwneud tri gorchymyn cychwyn yn ystod mis Mawrth, a fyddai'n dod â'r mwyafrif helaeth o ddarpariaethau'r Ddeddf i rym, a bod y cyntaf o'r rhain yn cael eu gwneud yr wythnos hon.

36. Er na fydd nifer o ddarpariaethau'n dod i rym tan ar ôl etholiadau llywodraeth leol 2022, disgrifiodd y Gweinidog hefyd sut yr oedd wedi dymuno gwneud y darpariaethau angenrheidiol yn awr, er mwyn rhoi sicrwydd i'r awdurdodau ynghylch pa newidiadau deddfwriaethol a gaiff eu gweithredu a phryd. Byddai hyn yn sicrhau y byddai pawb yn gallu gwneud y paratoadau gofynnol.

37. Dywedodd y Gweinidog fod Rheoliadau canlyniadol y mae angen i'r Senedd eu cymeradwyo cyn y gallai wneud yr ail a'r trydydd Gorchymyn Cychwyn a bod y Rheoliadau hyn wedi'u gosod ar ffurf drafft i'w trafod dros y pythefnos nesaf.

38. Pan fydd y bydd y tri Gorchymyn wedi'u gwneud, daw darpariaethau i rym ar gyfres o ddyddiadau allweddol:
    - 1 Ebrill ar gyfer y gyfundrefn perfformiad a llywodraethiant ar gyfer prif gynghorau
    - 1 Mai ar gyfer y darpariaethau presenoldeb o bell a fyddai i bob pwrpas yn disodli'r Rheoliadau Coronafeirws brys
    - 1 Tachwedd ar gyfer y pŵer cymhwysedd cyffredinol i brif gynghorau
    - Daw'r mwyafrif o'r darpariaethau sy'n weddill, gan gynnwys pŵer cymhwysedd cyffredinol cynghorau cymuned cymwys, i rym wedyn ar 5 Mai 2022.

**Eitem 6 ar yr Agenda: Y Gronfa galedi – gwariant a dyraniadau**

39. Dywedodd y Gweinidog fod Llywodraeth Cymru wedi cefnogi'r awdurdodau lleol (ar 20 Chwefror 2021) gyda £218m ar gyfer costau ychwanegol a £139m ar gyfer incwm a gollwyd drwy gronfa galedi llywodraeth leol. Dyrannwyd £92.5m arall i'r gronfa galedi yn y drydedd gyllideb atodol, gan fynd â'r gyllideb i dros £600m. Cadarnhaodd y Gweinidog sut y rhannwyd y cyllid ychwanegol, fel a ganlyn.

    - £25m ar gyfer arbedion na chyflawnwyd mohonynt
    - £25m ar gyfer Trawsnewid Digidol
    - £7.5m ar gyfer prydau ysgol am ddim
    - £5m ar gyfer newidiadau ychwanegol mewn penderfyniadau oherwydd datblygiadau polisi
    - £30m wrth gefn
    - £6.5m ar gyfer costau ychwanegol sy'n ymwneud â llifogydd, gan gynnwys taliadau deiliaid tai

40. Cadarnhaodd y Gweinidog y bydd y gyllideb derfynol yn cael ei chyhoeddi yfory ac y bydd yn cynnwys cyllid a ddyrannwyd ar gyfer 6 mis cyntaf y flwyddyn i barhau i gefnogi'r ystod lawn o faterion oherwydd y pandemig.

41. Croesawodd y Cyng. Sam Rowlands y cyhoeddiadau am gyllid, ond hoffai gael sicrwydd na fydd gan y gronfa galedi ymyl clogwyn, gan fod effaith y pandemig yn parhau.

42. Dywedodd y Gweinidog y bydd y cyllid yn cael ei warantu am isafswm o 6 mis, a bryd hynny caiff ei adolygu. Y ddwy gronfa a ddosberthir ar sail fformiwla yw'r cynlluniau treth gyngor ac Ardrethi Annomestig a fyddai wedi'u talu erbyn hyn, a bod popeth arall ar sail hawliadau. Rhoddodd y Gweinidog sicrwydd na fydd ymyl clogwyn, ond pwysleisiodd nad oedd modd cadarnhau a fydd rhagor o gymorth ar gyfer Ardrethi Annomestig gan nad oedd Llywodraeth y DU wedi gwneud cyhoeddiad eto.

43. Cododd y Cyng Rowlands a'r Cyng. Ellen ap Gwynn bryderon ynghylch lefelau'r cyllid ar gyfer cartrefi gofal yn y dyfodol a dywedodd y Gweinidog fod Julie Morgan AS wedi cyhoeddi ymgynghoriad ar y mater hwn yn ddiweddar ac wedi annog yr awdurdodau i ymgysylltu a darparu eu barn  Cytunodd y Gweinidog hefyd y bydd angen trafodaethau pellach pan fydd cartrefi gofal yn dychwelyd i'r arfer.

**Eitem 7 ar yr Agenda: Diwygio fframwaith moesegol Llywodraeth Leol**

44. Dywedodd y Gweinidog fod Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) yn cynnwys darpariaethau sy'n anelu at sicrhau mwy o dryloywder a chyfranogiad agored rhwng cynghorau lleol a chymunedau. Sefydlwyd y fframwaith safonau moesegol am y tro cyntaf 20 mlynedd yn ôl ac mae'n hen bryd iddo gael ei adolygu.

45. Nododd y Gweinidog fod y darpariaethau bellach yn cynnwys dyletswyddau newydd i grwpiau gwleidyddol gymryd camau rhesymol i hyrwyddo a chynnal lefelau uchel o ymddygiad aelodau gyda'u grwpiau. Mae gofyniad i Arweinwyr y Grwpiau gydweithredu â Phwyllgorau Safonau'r Cynghorau wrth arfer ei swyddogaeth, a chyfrifoldeb newydd ar bwyllgorau sefydledig i roi cyngor a hyfforddiant a monitro digonol i Arweinwyr Grwpiau.

46. Diolchodd nifer o Arweinwyr i'r Gweinidog a chadarnhaodd eu cefnogaeth i'r fenter hon.

**Eitem 8 ar yr Agenda: Diwygio Cyllid Llywodraeth Leol: crynodeb o'r canfyddiadau**

47. Cadarnhaodd y Gweinidog fod yr adroddiad *Crynodeb o'r Canfyddiadau* a gyhoeddwyd ar 24 Chwefror yn dwyn ynghyd y gwaith archwiliadol ar opsiynau ar gyfer y dreth gyngor ac  ardrethi annomestig yn y dyfodol, a'r system cyllid llywodraeth leol ehangach.  Roedd yr adroddiad yn benllanw'r holl waith yn ystod tymor y Senedd hon i ymchwilio i ddiwygiadau i systemau ariannu lleol yn y dyfodol. Soniodd y Gweinidog am gynhadledd a oedd wedi'i gynnal ym mis Tachwedd ac a fynychwyd gan 150 o gydweithwyr, a oedd wedi ysgogi llawer o drafod ac a oedd yn cynnwys anerchiad agoriadol a oedd yn ysgogi'r meddwl gan y Cyng. Anthony Hunt.

48. Nododd y Gweinidog fod y ddogfen yn tynnu sylw at bum dyhead posibl ar gyfer y dyfodol, sydd i gyd yn seiliedig ar systemau tecach a blaengar.

49. Dywedodd y Cyng. Anthony Hunt fod pawb yn cytuno bod angen diwygio trethiant lleol, ac nad yw'r ffaith bod y cwestiwn yn anodd yn golygu na ddylem ei ofyn. Teimlai fod y system bresennol wedi cael ei gweithio i'r eithaf er mwyn cyflawni pethau a'u bod yn ceisio newid system hen ffasiwn nad yw'n flaengar yn rhywbeth blaengar. Ailadroddodd ei gefnogaeth felly i'r gwaith hwn at y dyfodol.

**Diwedd y cyfarfod**

50. Diolchodd y Gweinidog i bawb am eu hymgysylltiad fel aelodau o'r Cyngor Partneriaeth drwy gydol tymor y llywodraeth hon ac yn arbennig am eu hymroddiad a'u hymwneud drwy gydol cyfnod y pandemig, ar draws yr holl bleidiau gwleidyddol. Dywedodd y Gweinidog ei bod wedi bod yn fraint i gael gweithio gyda'r holl aelodau.

51. Diolchodd y Cyng Andrew Morgan i'r Gweinidog ar ran holl aelodau llywodraeth leol a CLILC am ei hymgysylltiad â hwy a dywedodd fod ei hymrwymiad wedi bod yn eithriadol o bwysig a gwerthfawr. Mynegodd nifer o Arweinwyr hefyd eu diolch am y gwaith partneriaeth, yn enwedig dros y flwyddyn ddiwethaf.